Gorsaf RadiOgwen a Rhaglen Llais y Llan- Ysgol Dyffryn Ogwen,Bethesda

Bwriad gorsaf RadiOgwen ydi hybu ymwybyddiaeth a mwynhâd disgyblion yr ysgol o gerddoriaeth Gymraeg a thrwy hyn, ddefnydd pob dydd o'r iaith. Mae gan Bethesda a'r ardal draddodiad cyfoethog o berfformwyr a cherddorion, a'r gobaith ydi y bydd yr orsaf yn ysbrydoli'r disgyblion i ymddiddori yn y diwylliant Cymraeg.

Sefydlwyd yr orsaf trwy nawdd grant HunanIaith, er y gellid defnyddio nifer o wahanol grantiau i gefnogi cynllun o'r fath. Mae'n darlledu dros chwe uchelseinydd yn ffreutur yr ysgol dros amser egwyl ac amser cinio. Gan amlaf, sioeau wedi eu recordio ymlaen llaw fyddwn yn eu darlledu, gyda'r bwriad i ddarlledu ambell i sioe yn fyw wrth i sgiliau'r disgyblion ddatblygu.

Lleolir yr orsaf ei hun mewn stordy- lle i ddesg ysgol arferol a dwy neu dair cadair sydd eu hangen. Ar y ddesg, mae'r offer technegol- gliniadur, desg gymysgu, dau feicroffon ac uned i reoli'r chwe uchelseinydd. Mae'r rhain wedi eu cysylltu â'r system gyda gwifrau, felly toes dim modd cystadlu gyda Radio Cymru o amgylch y wlad..... hyd yn hyn!

Gall y math yma o offer fod yn eithaf arbenigol, ac felly roedd angen ystyried pa offer a threfniant fyddai'n addas i ddefnydd ysgol. Roedd hefyd angen hyfforddiant ar gyfer disgyblion a staff ar sut i'w ddefnyddio. Stiwdio Box wnaeth ddarparu'r system- roedd gwasanaeth Marc Griffiths, perchennog y stiwdio ac un o gyflwynwyr Radio Cymru heb ei ail. Gosododd yr holl offer yn ei le o fewn diwrnod, a bu wrthi wedyn yn hyfforddi criwiau bychan o gyflwynwyr a thechnegwyr. Mae awr neu ddwy o hyfforddiant i griw o 3 neu 4 yn ddelfrydol. Roedd dau ran i'r hyfforddiant- defnyddio'r offer technegol i recordio a darlledu, a defnyddio meddalwedd Audacity i recordio a golygu. Mantais fawr Audacity yw ei fod ar gael am ddim ar y we- roedd nifer o'r disgyblion wedi cael copi adref ac wedi bod wrthi'n ymarfer dros nos wedi'r hyfforddiant- brwdfrydedd go iawn!

Un o'r criwiau gafodd eu hyfforddi ydi criw rhaglen Llais y Llan a welwch ar y clip fideo. I gychwyn, criwiau o set 1 Cymraeg blwyddyn 8 a chriw brwdfrydig oedd ar fin mynd i'r chweched dosbarth gafodd eu hyfforddi. Dros amser, y bwriad yw iddyn nhw hyfforddi disgyblion eraill fel bod yr orsaf yn tyfu a bod cyfle i bawb.

Mae recordio rhaglen yn cymryd peth amser, ac felly nid oes rhaglen gan y disgyblion bob amser egwyl a chinio, ond byddwn yn llenwi'r cyfnodau yma gyda cherddoriaeth- y bwriad yw darlledu ddwywaith y dydd, bob dydd! Er mwyn sicrhau hyn, rydym wedi rhoi aelod o staff yn gyfrifol am gynnau a diffodd yr orsaf ddechrau a diwedd y cyfnodau egwyl a chinio.

Y datblygiad nesaf i ni fydd sefydlu sioeau newydd gyda gwahanol griwiau o ddisgyblion a chysylltu gwaith yr orsaf gyda gweithgareddau eraill, fel y Fagloriaeth o fewn yr ysgol, a digwyddiadau fel Pesda Roc yn gymunedol- dyddiau difyr iawn!

Amcan o'r Costau

Gorsaf Radio	£ 3000
Gliniadur a Desg Gymysgu fel ail stiwdio recordio	£ 1300
Hyfforddiant (y dydd)	£ 230
Cerddoriaeth Gymraeg trwy'r lle:	£ Amhrisiadwy!

Cysylltiadau

http://www.stiwdiobox.com/ http://audacity.sourceforge.net/